# Adeiledd yr atom

Mae deall **adeiledd atomig** yn ein helpu i egluro pam mae **elfennau** yn ymddwyn fel y gwnânt a pham maent yn ffurfio sylweddau gwahanol. Rydym yn defnyddio **model planedol** syml i ddisgrifio adeiledd atom, ond byddwn yn defnyddio modelau mwy cymhleth wrth astudio ar lefel ôl-16.

## Gronynnau is-atomig

**Protonau**, **niwtronau** ac **electronau** yw'r gronynnau is-atomig. Mae'r **protonau** (sydd â gwefr bositif) a'r **niwtronau** (niwtral) i'w canfod yn y **niwclews** yng nghanol yr atom. Mae'r **electronau** (sydd â gwefr negatif) yn orbitio'r niwclews mewn **plisg** (lefelau egni).

## Plisg electronau

Mae'r **plisgyn cyntaf** yn dal hyd at ddau **electron**; mae'r **ail blisgyn** yn dal hyd at wyth **electron**. Gall y **trydydd plisgyn** ddal hyd at 18 **electron** ond ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar **is-blisgyn** y tu mewn iddo, sy'n cynnwys hyd at wyth electron.

## Y tabl cyfnodol

Gallwn bennu rhai agweddau ar adeiledd atomig elfen ar sail ei lleoliad yn y tabl cyfnodol. Mae rhif y **grŵp** yn dweud wrthym faint o **electronau** sydd yn y **plisgyn allanol** (ar gyfer y tri **chyfnod** cyntaf) ac mae rhif y **cyfnod** yn cyfateb i nifer y **plisg electronau**.

## Rhif atomig

Yn y tabl cyfnodol, fe welwch symbol elfen, ei henw a faint o **ronynnau is-atomig** sydd ynddi. Fodd bynnag, y **rhif atomig** (nifer y **protonau**) sy'n pennu pa elfen yw hi. Gall nifer y **niwtronau** a'r **electronau** amrywio ar gyfer elfen benodol, ond mae pob **atom** ac **ïon** o **elfen** benodol yn cynnwys yr un nifer o **brotonau.**

## Rhif màs

Y **rhif màs** yw nifer y **protonau** a'r **niwtronau**. Gall nifer y **niwtronau** amrywio ar gyfer elfen benodol, ond mae nifer y **protonau** yr un fath bob amser.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol